Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Gwasanaeth Cymorth Arbenigol Plant**

**33–35 Bryn Hwfa**
**Rhostrehwfa**
**Llangefni**
**LL77 7YT**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

Date_Last_Inspection_Completed_Donot_Delete

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Gwasanaeth Cymorth Arbenigol Plant

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Gwasanaethau Gofal Plant a Chwarae Cyngor Sir Ynys Môn |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 25 Mai 2017<br>17 Mehefin 2017<br>29 Mehefin 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Cofnodwch â llaw<br>Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy.<br>*Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth.* |

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu. Maent yn elwa ar y profiadau a gynigir ac yn dylanwadu ar sut maent yn treulio'u hamser.

Mae'r staff yn ymroddedig i'w rolau. Diffinnir cyfrifoldebau a dyletswyddau'n glir, a rhoddir blaenoriaeth uchel i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Mae gweithgareddau'n cael eu cynllunio'n dda, gan ystyried unigoliaeth plant, sy'n sicrhau eu bod yn elwa o'u hamser yn y gwasanaeth.

Mae'r rhai sy'n cynnal y lleoliad yn sicrhau bod plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd ysgogol a diogel. Dilynir gweithdrefnau systematig i sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel, ac mae adnoddau'n lân ac o ansawdd da.

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn glir am eu nodau a'u hamcanion. Maent yn gwerthfawrogi cyfraniad ac ymroddiad y tîm o staff, sy'n ymgymryd â'u rolau'n llawn brwdfrydedd. Mae rhoi gwelliannau parhaus ar waith yn bwysig, ac mae arweinwyr yn ceisio sicrhau bod syniadau newydd yn fanteisiol i blant a'u teuluoedd.

Gweithio mewn partneriaeth â rhieni yw prif amcan y lleoliad ac mae'n ymdrechu'n barhaus i gynnwys rhieni yn yr hyn sy'n digwydd.

## Llesiant

Mae'r plant wedi ymgartrefu ac yn dangos perthynas glòs â'r staff, sy'n eu hadnabod yn dda. Maent yn derbyn cymorth i gyfathrebu ac i wneud eu hanghenion yn hysbys. Er enghraifft, maent yn dylanwadu ar sut maent yn treulio'u hamser a gofynnir iddynt a ydynt am gymryd rhan mewn gweithgareddau penodol, megis pobi. Mae cymhorthion gweladwy yn cynorthwyo gyda chyfathrebu, ac mae plant yn dangos i staff pan fyddant am symud ymlaen at rywbeth arall.

Mae'r plant yn gyfforddus â'r rheini o'u cwmpas. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r staff ac â'i gilydd. Mae plant yn ymgartrefu'n gyflym i'r drefn ddyddiol ac maent yn gyfforddus wrth dreulio amser gyda'r staff a'u ffrindiau. Maent yn teimlo y rhoddir sicrwydd iddynt pan fydd staff yn siarad â nhw. Er enghraifft, pan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgaredd ac anogir iddynt gwblhau tasg yn annibynnol.

Mae ymddygiad cadarnhaol yn cael ei hyrwyddo, a lle bo'n bosibl, anogir annibyniaeth. Mae plant yn ymateb yn dda i ddisgwyliadau ymddygiad ac maent yn elwa ar drefn gyson. Mae llinell amser weladwy yn helpu i baratoi plant ar gyfer yr hyn a fydd yn digwydd yn ystod y dydd. Defnyddir amserwyr wy i helpu'r plant i ddeall faint o amser sydd ganddynt ar ôl ar weithgaredd penodol.

Yn bennaf, mae plant yn derbyn gofal ar sail un i un, sy'n golygu bod plant yn gyfarwydd â'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Maent yn nodi eu hanghenion ac mae staff yn deall. Mae cyfleoedd sylweddol i blant gymdeithasu ag eraill, ac maent yn dysgu sut i fod yn garedig. Er enghraifft, maent yn treulio amser gydag eraill ym Mryn Hwfa ac, ar adegau, maent yn cymdeithasu yn y gymuned gyda'i gilydd.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r staff yn gyfarwydd â'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn cefnogi plant i fod yn gorfforol egnïol pan fyddant dan do ac yn yr awyr agored.  Mae staff yn cymhwyso egwyddorion yr Offeryn Archwilio Rheoli Heintiau yn hyderus.  Maent yn dilyn gweithdrefnau mewn perthynas â gofal personol er mwyn lleihau'r risg o ledaenu heintiau, er enghraifft trwy hyrwyddo pwysigrwydd golchi dwylo. Cofnodir gwybodaeth bwysig ynglŷn â llesiant y plant yn ddiwyd.  Mae diogelu â blaenoriaeth uchel ac mae'n sail i’r holl arferion, ac roedd gan yr holl staff y siaradwyd â nhw ddealltwriaeth drylwyr o'u cyfrifoldebau. Mae polisïau a gweithdrefnau yn hygyrch i'r staff.  Gwelsom y darperir hyfforddiant penodol er mwyn i staff gefnogi unigolion wrth ddiwallu eu hanghenion meddygol penodol.  Fodd bynnag, nid yw'r holl staff wedi mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig. Mae ymarferion tân wedi cael eu cynnal ac mae gwybodaeth wedi cael ei rhannu â staff ynglŷn â sut i adael yr adeilad yn ddiogel.

Mae'r staff wedi ymroddi i ddarparu gofal unigol, gan alluogi plant i dyfu a dysgu. Siaradodd staff â ni am ddewisiadau unigol ac anghenion y plant. Mae staff yn cyfleu dealltwriaeth gynhwysfawr o ddatblygiad plant a sut mae hwn yn cael effaith ar ymddygiad plentyn.  Mae staff yn nodi eu disgwyliadau o ran ymddygiad yn eglur ac maent yn gyson ac yn deg yn eu hymagwedd, gan wrando ar farn plant a gwerthfawrogi cyfraniad plant yn fawr. Mae cymhorthion gweladwy ar gael i gefnogi a chynorthwyo cyfathrebu.

Mae gan y staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer profiadau'r plant. Maent yn cynllunio gweithgareddau'n ofalus, a fydd o fudd i'r plant. Mae’r holl staff yn cyfrannu at y gwaith o gynllunio ar gyfer plant unigol gydag amcan clir a fydd yn hyrwyddo datblygiad, hyder a hunan-barch plant, ynghyd â rhoi ymdeimlad o hwyl a mwynhad.  Mae staff yn mynd at eu gwaith gyda phroffesiynoldeb.  Rhennir y camau nesaf a nodir gyda'r holl staff a rhieni, gan alluogi pawb sy'n gofalu am y plant i’w cefnogi i gyrraedd eu potensial llawn.   Mae dealltwriaeth ac ymdrech o ddifrif i gefnogi a diwallu anghenion plant ag anghenion ychwanegol ac mae dull tîm yn sicrhau bod plant yn gwneud cynnydd da.

## Yr Amgylchedd

Mae'r rhai sy'n cynnal y lleoliad yn rhoi amgylchedd diogel, glân a saff i’r plant. Maent yn cymryd cyfrifoldeb llawn dros reoli risg. Mae asesiadau risg yn fanwl ac yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Mae cyfrifoldebau yn cael eu cyfleu'n dda i'r rhai sy'n gweithio yn y lleoliad a dywedodd staff wrthym yn hyderus am sut y maent yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnal a bod yr amgylchedd yn parhau i fod yn ddiogel.

Mae'r rhai sy'n cynnal y lleoliad yn cynllunio'n dda i wneud y defnydd gorau o'r amgylchedd a defnydd effeithiol o'r gofod. Gwneir newidiadau wrth i'r gwasanaeth dyfu a datblygu. Er enghraifft, mae ystafell dawel wedi'i chyflwyno a man synhwyraidd ychwanegol. Gwelsom staff yn cefnogi plant i ddefnyddio'r ystafell dawel, a defnyddiwyd y lolfa ar gyfer gwylio'r teledu. Defnyddiwyd y gegin ar gyfer amseroedd bwyd, pobi a darllen, ac mae plant yn cael eu cefnogi gan yr staff drwy'r amser. Mae'r adeilad wedi'i haddurno'n dda ac mae celfwaith lliwgar ar y wal yn creu man croesawgar a hwyliog i fod ynddo.

Mae'r rhai sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi ystod eang o deganau ac offer o ansawdd da, sy'n rhoi gweithgareddau diddorol i'r plant. Mae'r adnoddau wedi'u cynllunio'n ofalus i gynnig amrywiaeth o gyfleoedd gwahanol i'r plant. Mae'r staff yn hyderus ac yn gyfarwydd â'r adnoddau sydd ar gael. Er enghraifft, gwelsom staff yn gwneud adnoddau ar gael, a oeddent yn gwybod y byddent yn helpu plentyn i ymlacio. Mae'r rhai sy'n cynnal y lleoliad yn sicrhau'n barhaus fod adnoddau'n hygyrch i bawb. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn prynu stoc newydd o adnoddau ar ddechrau gwyliau'r haf, gan sicrhau bod ganddynt bopeth sydd ei angen arnynt ar gyfer sesiynau yn ystod eu cyfnod prysuraf. Mae’r staff yn drylwyr wrth lanhau adnoddau, gyda'r holl eitemau'n cael eu glanhau cyn iddynt gael eu rhoi i gadw.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r rhai sy'n cynnal y lleoliad yn ei adnabod yn dda. Maent yn ymroddedig i weithredu lleoliad sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol. Maent yn annog y staff i roi amgylchedd meithringar a gofalgar lle mae'r plant yn hapus ac yn gwneud cynnydd. Gosodir disgwyliadau uchel, gydag ymdeimlad o ddiben i gyflawni eu nodau. Mae’r rhai sy'n cynnal y lleoliad wedi sefydlu ethos cadarnhaol lle mae’r holl blant a staff yn cael eu gwerthfawrogi. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i fywydau plant, ac maent yn mwynhau eu gwaith.

Mae arweinwyr yn gweithredu prosesau effeithiol er mwyn gwerthuso sut mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn rheolaidd, ac yn cynllunio ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Roedd yr adroddiad ansawdd gofal yn fanwl ac yn amlinellu amcanion helaeth, yr oedd rhai ohonynt eisoes wedi'u cwblhau. Ers yr arolygiad diwethaf, mae nifer o newidiadau cadarnhaol wedi digwydd. Mae'r tîm o staff yn cyflawni eu rolau'n hyderus ac yn llawn brwdfrydedd, ac mae ganddynt gyfleoedd rheolaidd i drafod a rhoi adborth ar yr hyn y maent yn ei wneud.

Dilynir proses recriwtio glir ac mae bron pob un o'r gwiriadau gofynnol yn cael eu cwblhau. Fodd bynnag, roedd rhai ffeiliau staff heb ddatganiadau meddygol. Roedd yr holl staff wedi cael cyfnod sefydlu cadarn i'w rôl gydag amcanion clir a chyfleoedd i ddysgu am y rhain. Mae rolau'n cael eu dirprwyo'n glir rhwng y tîm staff, ac mae arweinydd tîm ar gael drwy'r amser. Rhoddir blaenoriaeth uchel ar roi hyfforddiant a goruchwyliaeth ystyrlon i staff. Maent yn derbyn lefel uchel gyson o gymorth ac mae eu gwaith caled yn cael ei werthfawrogi. Mae'r arweinwyr yn cyfleu'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ceisio'i gyflawni yn glir.

Mae'r rhai sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig ac yn ymroddedig i weithio mewn partneriaeth â theuluoedd a'r gymuned ehangach. Y weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth yw bod y gofal a ddarperir yn estyniad i brofiadau yn yr ysgol a gartref. Mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, maent yn ymdrechu i wella llesiant y plant. Mae sesiynau unigol wedi'u cynllunio'n dda a rhoddir adborth rheolaidd i rieni. Mae'r rhai sy'n cynnal y lleoliad yn cyfrannu'n rheolaidd at gyfarfodydd amlddisgyblaethol, a hefyd yn cyfarfod â theuluoedd yn rheolaidd, ac ymweld â chartrefi’r plant. Maent yn gwneud defnydd da o adnoddau lleol, gan ymweld â lleoedd o ddiddordeb a mynychu gwasanaethau'r clwb ieuenctid. Mae'r rhai sy'n cynnal y lleoliad yn hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth er mwyn gwella dysgu a llesiant plant. Maent yn sefydlu ymddiriedaeth a chyfathrebu clir, yn sicrhau bod rhieni'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf, ac yn gwerthfawrogi eu hadborth a'u cyfraniadau. Gweithio mewn partneriaeth â rhieni yw amcan craidd y lleoliad ac mae'r arweinwyr yn ymdrechu'n barhaus i gynnwys rhieni yn yr hyn sy'n digwydd.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1 – Sicrhau bod staff yn mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig wedi'i gymeradwyo.

A2 – Sicrhau bod ffeiliau staff yn cynnwys datganiadau iechyd.